# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 6 E+W

DARPARIAETHAU TERFYNOL

### 94 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon: cyffredinol E+W

(1) Mae rheoliadau o dan y Ddeddf hon i'w gwneud gan Weinidogion Cymru.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;

(b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

(3) Mae offeryn statudol nad yw ond yn cynnwys rheoliadau o fewn is-adran (4) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Mae rheoliadau o fewn yr is-adran hon os ydynt yn—

(a) rheoliadau a wneir o dan adran 16(3) (uchafswm y ganran o ddeunyddiau anghymwys sydd i'w chynnwys mewn cymysgedd cymwys o ddeunyddiau),

(b) rheoliadau a wneir o dan adran 41(9) (cynnwys anfoneb dirlenwi), neu

(c) rheoliadau a wneir o dan adran 93 sy'n bodloni'r amod yn is-adran (5).

(5) Yr amod yw bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r rheoliadau yn gwneud unrhyw ddarpariaeth a all—

(a) peri i swm y dreth sydd i'w godi ar waredi ad trethadwy fod yn fwy na'r swm a fyddai i'w godi ar y gwarediad fel arall, neu

(b) peri i dreth fod i'w chodi pan na fyddai treth i'w chodi fel arall.

(6) Ni chaniateir gwneud unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon, ac eithrio un y mae adran 95 yn gymwys iddo, oni bai bod drafft o'r

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 94. (See end of Document for details)*

offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 94 mewn grym ar 8.9.2017, gweler **a. 97(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 94.